| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **CABINET** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Tachwedd 2012** |
| **Aelod Cabinet Arweiniol:** | **y Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Swyddog Arwain:** | **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar arbedion a chyllideb refeniw'r cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gryno am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r aelodau am sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r targedau arbedion a chyllidebau am y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

## 4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir rhagolwg diweddaraf y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos £210k o danwariant ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol. Mae'r sefyllfa i ysgolion yn rhagweld symudiad net cadarnhaol ar falans o £169k.

Mae crynodeb y Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond cronfa ar wahân yw hwn ac nid yw'n rhan o brif gyllideb refeniw'r Cyngor.

Yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn, rhoir yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n dangos cynnydd mewn perthynas â'r arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt yn rhan o'r broses o osod cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd ar arbedion net o £3.443m a chyflawnwyd £2.423m (70%) gyda £995k (29%) wedi'u dosbarthu'n rhai ar y gweill a £25k (1%) wedi'u gohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae'r gohirio'n berthnasol i arbedion oherwydd rhesymoli argraffyddion. Er bod eitemau wedi'u dosbarthu o hyd fel rhai 'ar y gweill', credir bod yr holl arbedion a restrir yn gyraeddadwy. Bydd y targed arbed corfforaethol ynghylch newid statws rhai defnyddwyr ceir hanfodol yn statws defnyddwyr achlysurol ac effaith newid y rheolau diystyru sy'n berthnasol i deithio busnes o'r cartref i'r gwaith yn cael ei gyrraedd. Mae'r effaith fanwl ar gyllidebau gwasanaeth unigol yn cael ei hasesu.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gweithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol, yn seiliedig ar reolaeth effeithiol ar gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor ac ar gyllidebau cyfalaf a chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Defnyddir y rhan hon o'r adroddiad i amlygu unrhyw amrywiadau allweddol o'r targedau cyllideb neu arbedion, risgiau neu arbedion ychwanegol posibl a allai godi drwy gydol y flwyddyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf fwy cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r sefyllfa hyd ddiwedd mis Hydref yn dangos bod y rhan fwyaf o wasanaethau'n disgwyl cyflawni cyllideb fantoledig. Disgrifir isod y meysydd y mae angen eu hegluro ymhellach.

**Cyllidebau Gwasanaeth**

**Priffyrdd a Seilwaith** – Mae pwysau ar y Gwasanaethau Parcio a Rheoli Asedau, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghyllideb gyffredinol y gwasanaeth.

**Gwasanaethau Oedolion** Ar hyn o bryd, mae ymarfer manwl o ailosod y gyllideb yn digwydd ar draws y gwasanaeth i sicrhau bod y gyllideb yn cyfateb i'r disgwyliadau a'r galw cyfredol am wasanaethau. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf, mae £241K o bwysau cyffredinol ar y gyllideb o ganlyniad i orwariant ar y gwasanaeth Anableddau Dysgu (lleoliadau preswyl cost uchel) ond, yn rhan o'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd unrhyw orwariant terfynol diwedd blwyddyn yn cael ei lyncu drwy ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl, gan adael sefyllfa o adennill costau net i'r Adran yn 12/13.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn rhagweld adennill costau'n gyffredinol ond mae hyn gan dybio y defnyddir tanwariant ar gostau cyflog ar draws yr Adran i lyncu rhyw £81k o bwysau disgwyliedig ar brosiect Genesis II. Mae'r pwysau'n cynnwys elfen o gostau colli swyddi ar gyfer tri o'r deiliaid swydd na'u symudwyd i swyddi eraill yn y Cyngor.

**Tai a Datblygu Cymunedol (gan gynnwys Adfywio)** – Rhagwelir y bydd y gyllideb Tai nad yw ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai yn cyrraedd y targed. Yn y gyllideb Adfywio, mae £50k o bwysau eleni ar brosiect y Rhyl yn Symud Ymlaen. Bydd adroddiadau ar wahân yn cael eu cyflwyno am y cyllidebau fis nesaf.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** - Ceir pob ffydd y bydd yr Adran yn cyrraedd targed arbed eleni, sef £365K, ac mae'r rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth ar y trywydd i adennill costau. Fodd bynnag, mae'r Adran yn dangos £39K o orwariant cyffredinol net o ganlyniad i £40K o bwysau ar y

gyllideb Rheoli Cofnodion oherwydd secondio aelod o staff o'r Gwasanaethau Cwsmeriaid i swydd dros dro a grëwyd o'r newydd.

Rhagwelir y bydd y **Gwasanaethau Amgylcheddol** yn tanwario £113K yn 2012/13 a hynny'n bennaf am fod incwm ychwanegol wedi'i sylweddoli o werthu deunyddiau eildro. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn rhoi gwybod am yr elw cadarnhaol hwn yn y cyfarfod Herio Gwasanaeth a gynhelir yn ddiweddarach ym mis Tachwedd, pan fydd arbedion ychwanegol posibl ar gyfer 2013/14 yn cael eu hamlinellu.

Mae'r cyllidebau **Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid** ar hyn o bryd yn rhagweld tanwariant bach o £58k. Mae'r rhain yn wargedion yn ystod y flwyddyn oherwydd ailstrwythuro staff, sef proses sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd.

**Ysgolion** – fel ar ddiwedd mis Hydref, y rhagamcaniad ar gyfer balansau ysgol yw £1.970m. Mae hwn yn symudiad cadarnhaol o £169k ar y balansau o £1.801m a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Mae'r cyngor yn gweithio ar hyn o bryd gyda dwy ysgol sydd mewn anhawster ariannol gyda chyfanswm o £456k o falansau diffyg. Mae gan yr ysgolion hyn gynlluniau adfer yn eu lle ac maent wrthi'n gweithio i'r targedau a osodir yn y cynlluniau hyn.

Rhagwelir y bydd y **Gyllideb Cyllid Cyfalaf** yn cael ei thanwario £125k eleni am fod y cyngor wedi benthyg llai na'r disgwyl, gan leihau'r costau benthyg a thrafod.

**Cynllun Cyfalaf**

Mae gwariant hyd ddiwedd mis Hydref yn £11.8m mewn perthynas â Chynllun o £33m y cytunwyd arno. Dengys **Atodiad 3** grynodeb o'r cynllun cyfredol a'r ffordd y caiff ei gyllido. Dangosir trosolwg o'r prif brosiectau cyfalaf yn **Atodiad 4.**

**Y Cyfrif Refeniw Tai (HRA)**

Mae rhagolwg diweddaraf y Cyfrif Refeniw Tai yn aros yr un fath ac mae'n dangos £77k o ddiffyg canol blwyddyn. Mae hyn yn cymharu â £71k o warged canol blwyddyn a gyllidwyd. Fodd bynnag, mae'r gyllideb a'r alldro'n cynnwys darpariaeth i ariannu gwariant cyfalaf o refeniw. Y dybiaeth ddiweddaraf yw y bydd £431k yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. Mae'r Cynllun Busnes yn ddichonadwy o hyd ac, yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf, bydd £794k o weddill y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei ddwyn ymlaen, o'i gymharu â rhagamcaniad o £942k yn y gyllideb.

Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai'n gwario £7.4m yn 2012/13 sy'n cael ei ariannu'n rhannol drwy fenthyca darbodus (£4.6m). Mae'r broses o gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012/13 yn parhau tuag at y targed a chwblhawyd arolwg manwl o gyflwr stoc yn ddiweddar.

Dylai'r Dyfarniadau Cymhorthdal drafft gyrraedd gan Lywodraeth Cymru yn yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd y rhain yn pennu elfennau allweddol o gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2013/14 - gan dybio y bydd y system gymhorthdal cenedlaethol yn parhau i 2013/14. Mae hyn fel petai'n debygol ac ni fydd y newidiadau arfaethedig mewn cyllid tai cyngor yng Nghymru, o'r system gymhorthdal presennol i fodel hunangyllido, yn cael eu cyflwyno bellach tan 2014/15.

Dangosir crynodeb o sefyllfa ddiweddar y Cyfrif Refeniw Tai yn y tabl isod.

***Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf:***

| Crynodeb o Gyfrif Refeniw Tai 2012/13<br>Hydref 2012 | |
|---|---|
| **Gwariant** | **£'000** |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai | 5,814 |
| Taliadau Cyfalaf | 2,662 |
| Cymhorthdal | 3,081 |
| Darparu ar gyfer drwg ddyledion | 29 |
| Gwariant Cyfalaf Cyllid Refeniw | 431 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **12,017** |
| **Incwm** | |
| Rhenti | 11,777 |
| Garejis | 158 |
| Llog | 5 |
| **Cyfanswm Incwm** | **11,940** |
| **Gwarged /(Diffyg) Canol Blwyddyn** | **(77)** |
| **Balans Cyfrif Refeniw Tai a Ddygir Ymlaen** | **794** |

| Cynllun Cyfalaf Tai<br>Hydref 2012 | £,000 |
|---|---|
| Gwariant wedi'i Gynllunio | 7,437 |
| **Ariannwyd gan:** | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,400 |
| Cyfraniad Refeniw | 431 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 17 |
| Benthyca Darbodus | 4,589 |
| **Cyfanswm** | **7,437** |

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y cabinet a chytunodd y cyngor yn ffurfiol arni ar ôl cylch helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwyodd y cyngor y cynllun cyfalaf ar ôl i'r Grŵp Buddsoddi Strategol graffu arno ac ar ôl i'r cabinet argymell hynny. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr y ffederasiwn tenantiaid.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 ac mae'n dangos sut bydd y Cabinet yn cael gwybod am gyllid y Cyngor drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau arbed yr hyn y cytunwyd i'w arbed drwy'r Heriau Gwasanaeth a'r prosesau gosod cyllideb ac, ar hyn o bryd, maent fel petaent ar y trywydd cywir i gyflawni hyn. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddarbodus a bod unrhyw warged canol blwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

### Sylwadau Economaidd a'r Diweddaraf am Reoli'r Trysorlys

Mae'r marchnadoedd ariannol yn hynod gyfnewidiol o hyd ac mae hyn yn dal i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda hwy ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu gwneud. Wrth i'r ansicrwydd yn y marchnadoedd barhau, mae polisi'r cyngor yn cyfyngu ar y rhan fwyaf o fuddsoddiadau newydd i adneuon dros nos. Mae'r strategaeth hon o wneud buddsoddiadau tymor byr iawn yn debygol o barhau am y tymor canolig.

Ar hyn o bryd, cyfanswm y benthyca yw £134.08m ar gyfradd gyfartalog o 5.76% a chyfanswm y buddsoddiadau yw £18.0m ar gyfradd gyfartalog o 0.75%.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Hwn yw'r cyfnod ariannol mwyaf heriol sydd wedi wynebu'r cyngor ac os bydd yn methu â chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon a blynyddoedd ariannol y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol a rhoi gwybod yn gynnar am amrywiannau yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallant gynnwys gor-redeg amser neu wariant, problemau cyllid ac ystyriaethau eraill heblaw rhai ariannol. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn a phrosesau monitro ac adrodd ariannol manwl, ynghyd â gweithdrefnau effeithiol i reoli prosiectau, yn helpu i leihau'r risgiau hyn.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai'n buddsoddi cyfalaf sylweddol i wella'r stoc tai ac mae'n defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciadau fod yn fforddiadwy ac mae'r monitro rheolaidd a'r cymeradwyo blynyddol a'r asesiad o ddichonolrwydd y Cynllun Busnes Stoc Tai yn sicrhau hyn.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.